


CYRCHFAN
WILDFOX
RESORTS

CWM AFAN
AFAN VALLEY

# Agweddau'r Cyhoedd i Farchnad Gwyliau Gartref y Deyrnas Unedig

Medi 2022

ANTUR BYD NATUR
NATURE'S ADVENTURE

WWW.WILDFOXRESORTS.COM

1. Cyflwyniad
2. Y galw am wyliau gartref yn y DU
3. Cynllunio gwyliau yn y DU
4. Ymlacio a llesiant
5. Bwyd a diod
6. Llety
7. Blaenoriaethau defnyddwyr gwyliau
8. Ystyried cynllunio gwyliau antur
9. Bod ar wyliau antur
10. Casgliad

## 1. Cyflwyniad

Gwelwyd y Gwyliau Prydeinig fel symbol o statws ers oes. Po bellaf fyddech chi'n mynd, a pho fwyaf egsotig y mannau y byddech chi'n ymweld â nhw, y mwyaf o argraff fyddech chi'n ei greu ar eich ffrindiau a'ch perthnasau.

Mae'r byd wedi newid. Heddiw, mae pobl eisiau cael profiadau, boed hynny fil o filltiroedd i ffwrdd, neu gan milltir i ffwrdd, mae popeth yn ymwneud â'r atgofion, nid y milltiroedd.

Wedyn daeth pandemig COVID-19 ar ein traws. Effeithiodd ar bob elfen o'r modd y bydd pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.

Cafodd effaith ddofn ar sut y bydd pobl yn cael gwyliau hefyd; profodd marchnad gwyliau gartref (staycation) y DU gynnydd enfawr o ran niferoedd. Ychwanegwch at hynny'r argyfwng costau byw presennol, ac mae'n amlwg gweld pam y byddai pobl yn dewis cael gwyliau gartref.

A yw'r duedd honno wedi parhau, a beth yw'r profiadau y mae pobl yn chwilio amdanynt i'w cadw – a'u plant – yn ddiddan?

Nod Cyrchfannau Wildfox yw ateb y cwestiynau hynny. Mae Wildfox yn benderfynol o newid y gêm ym maes gwyliau'r DU a chynnig dull newydd, deinamig ac aroesol o gael gwyliau gartref i ddefnyddwyr.

Mae gan Gyrchfannau Wildfox ymgyrch ar droed i greu cyrchfannau ffordd-o-fyw sy'n adeiladu profiadau cofiadwy. Bydd yn darparu cyrchfan sy'n rhoi gwerth ar bobl, y blaned a phleser. Sut?

Drwy adeiladu cymuned, o fewn cymuned. Byw am yr eiliad, ac ar yr un pryd gynllunio am y dyfodol, A chynnig profiad sy'n edrych, yn blasu, ac yn teimlo fel rhywbeth o safon uchel.

Dyma sy'n gyrru ein hymchwil, Fe wnaethon ni archwilio'r farchnad gwyliau gartref yn y DU i ddatgelu sut y bydd pobl o bob oedran yn cael gwyliau yn y DU. Fe wnaethon ni sampli 1,300 Defnyddiwr Cyffredinol yn y DU oedd yn 18 oed a hŷn (sampl cenedlaethol cynrychioliadol) gyda sampl uwch o 506 yng Nghymru, sy'n gyfwerth â 1,806 o ymatebwyr i gyd.

O gynllunio'r ddihangfa berffaith, i fwynhau'r ddiod berffaith, rydym ni'n plymio i ganol y manylion i ddatgelu beth sy'n peri fod marchnad gwyliau gartref y DU yn un mor fywiog ac esblygol – gyda llawer mwy o gyfle ar y gorwel.



## 2. Y galw am wyliau gartref yn y DU

Ceir data helaeth i awgrymu fod y farchnad wyliau ddomestig yn y DU wedi tyfu'n aruthrol, a ddwysáodd gan bandemig COVID-19 pan fu'n rhaid i bawb ohonom edrych yn nes at adref i gael yr ymdeimlad hwnnw o ddianc.

Mae ein hymchwil yn cynnal y naratif hwn, gyda'r mwyafrif o ymatebwyr yn rhagweld mynd ar daith ddydd a gwyliau domestig yn y DU o fewn y 12 mis nesaf. Mae diddordeb ar gyfer y math hwn o wyliau'n parhau i fod yn gyson ar draws pob demograffeg, o 18–55 oed, gyda diddordeb ar ei uchaf ymysg pobl 25–34 oed.

Serch hynny, er gwaetha'r cynnydd mewn galw, mae lefel y gwariant yn parhau i fod yr un peth, ac ni ffafriwyd gwario mwy na llai ar wyliau o fewn y 12 mis nesaf. Wrth edrych ar hyn o safbwynt rhanbarthol, dangosodd ymatebwyr o Gymru'r parodrwydd mwyaf i wario mwy ar wyliau domestig, sef **35%**.

Wrth ystyried pa wyliau roedd ymatebwyr yn debygol i'u cynllunio yn y dyfodol, y mwyaf poblogaidd oedd dianc i natur (63%), gwyliau hollgynhwysol **(44%)**, a gwyliau sba (34%). Mae hyn yn amlygu dyhead pobl i fynd i ffwrdd i ymlacio, cael llai i bryderu amdano, a mwynhau'r ddihangfa.

## 3. Cynllunio gwyliau yn y DU

Rhan gyntaf unrhyw wyliau yw'r cynllunio. Gall dewis ble i fynd fod yn adeg llawn straen ynddo'i hun am fod angen i deuluoedd gydbwyso galwadau sy'n gwrthdaro a disgwyliadau cynyddol uchel.

Bu i ni archwilio pwnc cynllunio drwy ofyn i ymatebwyr drefnu'r pethau roedden nhw'n eu hystyried fel elfennau mwyaf pwysig eu gwyliau yn y camau cyntaf hyn. Y tri mwyaf poblogaidd oedd:

### Ymlacio a Llesiant:

Gosododd **74%** o ymatebwyr ymlacio a llesiant fel profiad pwysig, gyda ffafriaeth uchel iddo ar draws dynion a menywod. Y ddemograffeg oedran fwyaf ymatebol oedd honno ymhlith pobl 55 oed a hŷn, gyda bron i 500 ymateb unigryw.

### Archwilio rhywle newydd:

Amlygodd **68%** o ymatebwyr archwilio rhywle newydd fel blaenoriaeth allweddol wrth iddyn nhw ystyried cynllunio gwyliau. Tyfodd parodrwydd i ddarganfod o ran poblogrwydd drwy gydol pobl 18 i 44 oed, ac yna lleihaodd ymysg pobl 45 oed i dros 55. Dangosodd rhanbarthedd fod ymatebwyr o Gymru'n fwyaf parod i archwilio o'u cymharu â rhanbarthau eraill y DU, gydag ymatebwyr yn ninas Caerdydd yn dangos y parodrwydd mwyaf, sef **79%**.

### Gweld nodweddion eiconig (hanesyddol, naturiol ac ati)

Mae **64%** o ymatebwyr yn honni fod gweld nodweddion eiconig, gan gynnwys hanes lleol a thirweddau naturiol, yn ffactorau pwysig wrth gynllunio gwyliau. Dangosodd menywod ffafriaeth uwch o blaid yr elfen hon i wyliau. Roedd y canrannau uchaf i'w gweld yn Llundain Fwyaf, De Ddwyrain Lloegr, a Chymru

## 4. Ymlacio a llesiant


Am fod ymlacio a llesiant yn dod yn uchel ar restrau pobl wrth iddyn nhw gynllunio gwyliau, fe aethom ati i archwilio'r pwnc ymhellach. Ein nod oedd ceisio deall beth sy'n allweddol er mwyn peri i ymatebwyr brofi llesiant ac ymlacio pan fyddan nhw ar wyliau. Dengys y canlyniadau fod:

- **65%** o ymatebwyr yn gweld treulio amser gyda'r teulu, cyfeillion, neu bartner yn bwysig
- **51%** o ymatebwyr yn gweld treulio amser ym myd natur yn bwysig
- dywedodd **50%** o ymatebwyr fod darllen neu wrando ar gerddoriaeth yn bwysig, yn ogystal â threulio amser ar eu pen eu hun
- mae **32%** o ymatebwyr yn credu fod diffodd dyfeisiadau electronig yn bwysig

Yn ogystal â'r uchod, roedd archebu cyfleusterau sba yn ffordd boblogaidd o gael mynediad i brofiadau ymlacio a llesiant ymysg ymatebwyr benywaidd.

## 5. Bwyd a diod

Rhan greiddiol o unrhyw wyliau i'r rhai sydd ar wyliau yw bwyta ac yfed. Tynnodd **63%** o ymatebwyr sylw at y profiad o flasu bwyd lleol a diodydd arbenigol fel profiad pwysig ar wyliau. O blith y rhai a ddywedodd fod hyn yn bwysig iawn neu'n bwysig i raddau, bydd ymatebwyr yn cael mynediad i'r profiad hwn drwy:





Roedd bwyd a diod yn flaenoriaeth uwch i bobl 45 oed a hŷn.

## 6. Llety

Mae'r cynnydd mewn pobl sy'n chwilio am wyliau sy'n cynnig profiadau wedi gweld codiad enfawr yn y math o lety sydd ar gael i bobl ar wyliau, gyda chynigion unigryw'n gallu codi prisiau uchel.

Canfu ein hymchwil fod chwarter o ymatebwyr **(25%)** yn cytuno fod cael llety anarferol yn faen prawf pwysig wrth gynllunio gwyliau. Pan ofynnwyd iddynt sut byddai'r math hwn o lety'n edrych, tynnodd ymatebwyr sylw at y canlynol:




- cartrefi unigryw i'w llogi (cestyll, bythynnod, tai mewn coed, goleudai ac ati)
- Lojys ac ysguboriau
- Cabanau a chytiau
- Gwestyau moethus
- Gwersylla

Ar draws pob demograffeg, roedd pobl yn ffafrio llety hunangynhwysol; yn benodol, tai i'w rhentu, lojys ac ysguboriau, a chabanau a chytiau.

## 7. Blaenoriaethau Pobl


Pan ddaw hi'n adeg cynllunio, mae gan bobl ystod eang o flaenoriaethau sy'n rheoli sut y byddan nhw'n ymchwil, ystyried, a phenderfynu ar eu profiad gwyliau. Er mwyn archwilio'r pwnc hwn yn fanwl, cyflwynwyd cyfres o ddatganiadau i ymatebwyr.

- Cytuno (Net)
- Cytuno'n gryf
- Cytuno i ryw raddau
- Ddim yn cytuno nac anghytuno
- Anghytuno i ryw raddau
- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno (Net)


### 7.1 Mwyhau profiadau uwchlaw cost ariannol

Cytunodd **57%** o ymatebwyr fod profi cymaint â phosib, yn yr amser oedd ar gael, yn flaenoriaeth bwysicaf wrth gael gwyliau yn y DU. Cefnogwyd hyn ymhellach gan **43%** o ymatebwyr a gytunai fod cael profiadau ar wyliau'n bwysicach na'r gost ariannol.

**Pan fydda i'n mynd ar wyliau, dwi eisiau profi cymaint â phosib yn yr amser sydd gen i**




**Pan fydda i'n mynd ar wyliau, mae'r pethau y bydda i'n eu profi'n bwysicach na'r gost ariannol**





## 7.2 Cefnogi pobl a busnesau lleol

Dangosodd ymatebwyr hoffter dros gefnogi busnesau a phobl leol pan oedden nhw ar wyliau yn y DU. Dywedodd dros hanner y sampl ei bod hi'n gonsyrn ganddynt i gefnogi pobl a busnesau lleol, a'r profiad i'r cwsmer a dderbyniwyd, yn benodol cwrdd â phobl leol gyfeillgar, a derbyn eu croeso **(54%)**. Ystyriwyd y rhain yn ffactorau pwysig wrth greu profiad gwyliau cofiadwy.

**Mae gen i gonsyrn dros gefnogi pobl a busnesau lleol pan fydda i ar wyliau**




**Mae cwrdd â phobl leol gyfeillgar a chroesawgar yn peri bod fy nhaith yn gofiadwy / yn bwysig i mi**







## 7.3 Llety o safon

Nodwyd bod aros mewn llety o safon yn faen prawf pwysig pan oedd pobl ar wyliau hefyd. Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr **(46%)** na fydden nhw ddim yn cyfaddawdu ar ansawdd y llety pan oedden nhw ar wyliau yn y DU.


**Dyw cael llety o ansawdd da ddim yn rhywbeth y buaswn i'n fodlon cyfaddawdu arno**




## 7.4 Ymweld â mannau newydd a darganfod pethau newydd

Roedd defnyddwyr gwyliau yn y DU yn gytûn **(46%)** fod ymweld â mannau newydd a darganfod pethau newydd, fel gweithgareddau chwaraeon, nodweddion naturiol a hanesyddol, a phobl, yn ffactor bwysig pan oedden nhw ar wyliau.


**Mae'n well gen i ymweld â mannau newydd a darganfod pethau newydd**




## 7.5 Lleoliad gwyliau gydol y flwyddyn

Roedd cefnogaeth i gyrchfan gwyliau gydol y flwyddyn yn y DU, gyda'r cynnig lletygarwch hwn yn apelio at **42%** o ymatebwyr – gan awgrymu y gallai cyhoedd Prydain fod yn fwy parod i gofleidio'r glaw.

**Mae lleoliad gwyliau gydol y flwyddyn yn y DU yn apelio ataf i**







## 8. Ystyried cynllunio gwyliau antur

Gall gwyliau fod yn adeg i ymlacio, neu gall fod yn gyfle i roi tro ar rywbeth newydd. Mae'r cynnydd mewn gwyliau antur wedi meithrin ymdeimlad newydd o lwyddo sy'n gweld pobl yn aml eisiau dychwelyd i brofi mwy. Wrth ystyried gweithgareddau awyr agored a chwaraeon fel profiad gwyliau pwysig, fe ofynnon ni i ymatebwyr sut fydden nhw'n hoffi cael mynediad i brofiadau fel hynny'n ddelfrydol. Canfu'r canlyniadau:

Bod hollt amlwg rhwng y rhywiau, gyda'r data'n dangos fod menywod yn llawer mwy tebygol o gael mynediad i weithgareddau awyr agored a chwaraeon drwy wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, fel mynd i gerdded, rhedeg, seiclo neu nofio, gweithgareddau a drefnwyd ymlaen llaw neu weithgareddau a gynigiwyd o fewn safle'r llety. Dangosodd dynion ffafriaeth o blaid gweithgareddau awyr agored a chwaraeon oedd yn gofyn am rentu neu logi offer, neu fynychu digwyddiad chwaraeon.





- Mynd i gerdded, rhedeg, beicio neu nofio
- Cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau awyr agored
- Defnyddio cyfleusterau chwaraeon yn eich llety
- Cymryd rhan mewn chwaraeon / gweithgareddau awyr agored a drefnwyd
- Rhentu neu logi offer chwaraeon
- Mynychu digwyddiad chwaraeon
- Dod â'ch offer chwaraeon eich hun
- Dwi ddim yn eu defnyddio mewn unrhyw ffordd benodol

Roedd rhaniad hefyd o ran ffafriaeth yn ôl demograffeg oedran:

- Roedd mynd i gerdded, rhedeg, beicio neu nofio, cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau awyr agored, a rhentu neu logi offer chwaraeon, neu, i'r un graddau, ddod â'ch offer chwaraeon eich hun, yn fwyaf poblogaidd ymysg pobl **45-54 oed.**
- Roedd defnyddio cyfleusterau chwaraeon yn eich llety a chymryd rhan mewn chwaraeon / gweithgareddau awyr agored a drefnwyd, yn fwyaf poblogaidd ymysg pobl **18-24 oed.**
- Roedd mynychu digwyddiad chwaraeon yn fwyaf poblogaidd ymysg pobl **25-34 oed.**
- Roedd ymatebwyr oedd ddim yn defnyddio gweithgareddau awyr agored mewn unrhyw ffordd benodol dros **55 oed.**

Yn ogystal â gweithgareddau awyr agored, holwyd ymatebwyr hefyd i ystyried chwaraeon adrenalin ac antur. O fewn y grŵp sampl a ddywedodd fod chwaraeon adrenalin / chwaraeon antur yn 'bwysig iawn' neu 'rywfaint yn bwysig' iddyn nhw wrth ystyried cynllunio gwyliau, y pum prif weithgaredd a ffafriwyd oedd:





- Cerdded ar fryniau neu fynyddoedd
- Chwaraeon dŵr
- Dringo creigiau
- Plymio
- Beicio mynydd

Dangosodd demograffeg oedran hoffterau am chwaraeon adrenalin ac antur gwahanol.

Dyma ganfyddiad y data:

- Dangosodd **18-24** oed ddiddordeb cyfartal mewn beicio mynydd a weirenni zip
- Dangosodd **25-34** oed y diddordeb uchaf mewn chwaraeon dŵr
- Dangosodd **35-44** oed y diddordeb uchaf mewn cerdded ar fryniau neu fynyddoedd
- Dangosodd **45-54** oed y diddordeb uchaf mewn gyrru oddi ar yr heol
- Dangosodd **55** oed a hŷn diddordeb uchaf mewn sgïo

Mewn cymhariaeth, roedd sawl ymatebwr a deimlai fod yna rwystrau yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn gwyliau antur. O blith y rhai a deimlai y gallai hyn fod yn rhywbeth wrth eu dant, y rhwystrau amlycaf i gymryd rhan oedd:




- Does gen i ddim profiad o sut beth fyddai gwyliau antur
- Fyddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel yn cymryd rhan mewn gweithgareddau antur
- Rhy ddrud
- Fyddwn i ddim yn gwybod ble na sut i archebu gwyliau antur yn y DU
- Anaddas i blant.

## 9. Bod ar wyliau antur

Wrth brofi gwyliau antur, dywedodd ymatebwyr y bydden nhw'n fwyaf tebygol o fynd gyda:



**Partner neu gymar 47%**




**Teulu agos (plant dros 5 oed) 29%**



**Grŵp o ffrindiau (dim plant) 23%**

Gyda darlun amrywiol o sut fyddai gwyliau antur yn edrych i rai – o chwaraeon octan uchel, i adeiladu hyder, neu ddim ond i fynd mas i ganol byd natur, roedd hyd delfrydol y gwyliau'n gymysg. Ymysg yr ymatebion mwyaf poblogaidd roedd penwythnos hir (2–3 noson), a hyd at wythnos (6–7 noson).

Fe ofynnon ni i ymatebwyr: pan fyddwch chi ar wyliau antur, pa weithgareddau fyddech chi fwyaf tebygol o fod eisiau cymryd rhan ynddyn nhw. Canfu'r canlyniadau y byddai ymatebwyr yn fwyaf tebygol o fod eisiau:



**Nofio dan do (51%) a Pharc Dŵr dan do (45.95%)**



**Weiren Zip 30%**



**Rhaffau uchel 29%**




**Dringo ac abseilio 27%**



**Ceunanta (22%) ac Arfordira (17%)**


Er mwyn adeiladu gwell darlun o'r farchnad dwristiaeth hon, ac er mwyn deall beth fyddai'n cael ei gynnwys ymysg meini prawf gwyliau antur defnyddwyr, fe ofynnon ni i ymatebwyr flaenoriaethu set o ofynion.

Dangosodd y data, yn nhrefn pwysigrwydd:




- Diogelwch yn lleoliad – Pwysig (Net)
- Gorffwys ac ymlacio – Pwysig (Net)
- Bwyd o safon uchel – Pwysig (Net)
- Llety o safon uchel – Pwysig (Net)
- Hyblygrwydd o ran archebu – Pwysig (Net)
- Profiadau diwylliannol – Pwysig (Net)
- Y lleiaf o amser posib yn teithio i gyrraedd y gyrchfan – Pwysig (Net)
- Mae'r gyrchfan yn hawdd cyrraedd ati ar drafnidiaeth gyhoeddus – Pwysig (Net)
- Mae gan y lleoliad fynediad i ystod o weithgareddau awyr agored – Pwysig (Net)
- Cyfleoedd i gwrdd â phobl newydd – Pwysig (Net)
- Cyfleoedd i gael mynediad i weithgareddau i ddiddanu plant / cadw plant yn brysur – Pwysig (Net)

Yn gyffredinol, pan holwyd a fyddai'n well gan ddefnyddwyr fod eu taith yn rhoi gwerth am amser neu werth am arian iddynt, dangosodd y canlyniadau flaenoriaeth net i werth am amser. Roedd hyn yn fwyaf amlwg o fewn y ddemograffeg oedran iau rhwng 18 a 34 oed, ble roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn ffafrio gwerth am amser **(48%).**




- Gwell gen i gael gwerth am amser (Net)
- Gwell gen i gael gwerth am arian (Net)
- Ddim yn siŵr



## 10. Casgliad

Mae'r ymchwil hwn yn cefnogi'r tueddiadau sy'n cael eu hamlygu o fewn y farchnad letygarwch yn y DU yn ei chyfanrwydd. Amlygwyd sawl thema allweddol:

### Mae dianc i natur yn ffynnu

Tywynnodd y pandemig COVID-19 oleuni ar hygyrchedd llecynnau glas a pha mor anhepgor gysylltiedig ydynt i lesiant meddyliol a chorfforol defnyddwyr. Mae'r cynnydd hwn mewn diddordeb wedi diferu i droi'n duedd o fewn y farchnad dwristiaeth ddomestig. Ein canfyddiad oedd bod y gefnogaeth amlycaf am wyliau ar gyfer rhai oedd wedi'u seilio mewn natur uwchlaw unrhyw beth arall.

Wrth ystyried ffactorau pwysig wrth gynllunio gwyliau, roedd natur hefyd yn nodwedd gyffredin. Y tair blaenoriaeth uchaf ymysg ymatebwyr oedd ymlacio a llesiant, darganfod rhywle newydd, a gweld nodweddion eiconig, gan gynnwys tirwedd. A phan ofynnwyd yn benodol sut roedd ymatebwyr yn cael mynediad i ymlacio a llesiant ar wyliau, amlygodd dros hanner y sampl y ffaith fod hyn yn cael ei gyflawni drwy dreulio amser ynghanol byd natur.

### Tystiolaeth am gysyniad gwerth-am-amser

Er bod cyrchfannau gwyliau a arweinir gan brofiadau'n boblogaidd, prin y cawsant eu profi. Canfu ein hymchwil fod cefnogaeth i'r cysyniad o werth-am-amser.

Ar ôl eu cyflwyno i gyfres o ddatganiadau ynghylch y profiad lletygarwch yn y DU, amlygodd dros hanner yr ymatebwyr y ffaith mai'r elfen bwysicaf o wyliau domestig oedd profi cymaint â phosib yn yr amser oedd ar gael. Cytunodd bron i hanner yr ymatebwyr fod y profiadau hyn yn bwysicach na'r gost ariannol.

### Dyhead am ansawdd da

Ymgorfforwyd y cysyniad o brofiad o ansawdd uchel yn y cynnig lletygarwch ehangach drwyddo draw. Amlygodd ymatebwyr bwysigrwydd darparu dewisiadau bwyd a diod o safon. Yn ogystal, roedd consensws cyffredinol na fydden nhw ddim yn barod i gyfaddawdu ar lety o safon.

Amlygwyd ychwanegu gwerth drwy fanteision eilaidd gwyliau domestig, gydag ymatebion yn amlygu cefnogi busnesau lleol a chysylltu â phobl leol a chyfeillgar fel elfennau allweddol wrth fwynhau profiad gwyliau cadarnhaol.

### Galw heb ei gyffwrdd a gwasanaethau ar gyfer diangfeydd antur yn y DU

Ceir tuedd gadarnhaol o ran diddordebau ymatebwyr a'u hymgysylltiad nid yn unig â gweithgareddau awyr agored, ond gweithgareddau antur sy'n cael eu tanio gan adrenalin; waeth beth fo oedran neu ryw'r ymatebwr.

Serch hynny, mae gan y cynnig presennol ar y farchnad rwystrau i fynediad gan ddefnyddwyr. Tynnodd ymatebwyr sylw at ddiffyg profiad yn y farchnad wyliau hon, gofidiau am ddiogelwch, a bod cost ariannol yn eu hatal rhag ymgysylltu â'r math hwn o gynnig gwyliau. Ar ôl mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny, canfu ymatebwyr fod gwyliau antur yn gyrchfan ddeniadol i bartneriaid rhamantus, teuluoedd, a chyfeillion. Ymysg gweithgareddau antur amlwg roedd weirenni zip, rhaffau uchel, arfordira, ceunanta, a dringo.

### Darpariaeth gydweithredol

Er mwyn denu defnyddwyr i archebu gwyliau antur, roedd y blaenoriaethau allweddol i'w hybu'n cynnwys diogelwch y lleoliad, cyfle i gael gorffwys ac ymlacio, bwyd a llety o ansawdd uchel, a hyblygrwydd wrth archebu – gydol y flwyddyn – waeth beth fo'r tywydd.

O'u hystyried gyda'i gilydd, mae ein hymchwil yn awgrymu fod galw cynyddol am wyliau gartref yn y DU sy'n cynnig profiadau unigryw a chofiadwy.

Mae gweithio ar y cyd i elwa o'r cyfleoedd hyn – a darparu gwasanaeth o safon uchel sy'n driw i'r rhanbarth lleol – wrth wraidd Cyrchfannau Wildfox.

I ddysgu mwy, ewch i **www.wildfoxresorts.com.**



WILDFOX
RESORTS

**Grŵp Cyrchfannau Wildfox Cyf**

Tŷ Kimberley, Rhodfa Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DX

01639 500800

info@wildfoxresorts.com

ANTUR BYD NATUR

WWW.WILDFOXRESORTS.COM